

---

 Cyfraith contract a chyfraith camwedd W202
 

---

*Patrwm cyflwyno O fis Hydref i fis Mehefin*
*Disgrifiad o'r modiwl*

Mae'r modiwl hwn yn archwilio amrywiaeth o hawliau a rhwymedigaethau. Bydd y myfyrwyr yn archwilio'r modd y caiff contractau eu ffurfio, eu telerau, a'r modd y cânt eu dirwyn i ben. Drwy ddefnyddio cyd-destunau masnachol a defnyddwyr byddant yn ystyried y polisi a'r arfer sy'n sail i ddatblygiad a thwf cyfraith contract a'i hagweddau rhyngwladol. Yna byddant yn archwilio cyfraith camwedd. Caiff amrywiaeth o gamweddau eu harchwilio, gan gynnwys esgeuluster, niwsans a thresmasu, a hynny yng nghyd-destun polisi a budd y cyhoedd. Yna, bydd y myfyrwyr yn ystyried yr amrywiaeth gynyddol o gamweddau masnachol. Defnyddir astudiaethau achos drwyddi draw, ynghyd â dull gwerthusol sy'n ystyried datblygiadau mewn awdurdodaethau eraill.

*Manyleb y person*

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â'r [fanyleb gyffredinol](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb gyffredinol, dylech feddu ar y canlynol:

- profiad cyfredol neu ddiweddar (h.y. yn ystod y tair blynedd diwethaf) o addysgu cyfraith contract neu gyfraith camwedd ar lefel israddedig neu ymarfer cyfreithiol proffesiynol mewn cyfraith contract neu gyfraith camwedd.
- dealltwriaeth a gwybodaeth gyfredol ynghylch cyfraith contract neu gyfraith camwedd a'r gallu i drosglwyddo'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth hon i'r myfyrwyr drwy arfer addysgu effeithiol
- y gallu i ddangos dealltwriaeth a gwybodaeth gyfredol ynghylch yr amgylchedd cyfreithiol sy'n newid a'r newidiadau o ran addysgu'r gyfraith
- tystiolaeth o ddull systematig o addysgu sgiliau cyfreithiol academiaidd sylfaenol a rhesymu cyfreithiol
- profiad o gynnal ymchwil gyfreithiol ar-lein drwy ddefnyddio cronfeydd data cyfreithiol ar-lein neu mewn cyd-destun academiaidd neu broffesiynol, a thystiolaeth o'r gallu i roi cymorth priodol i fyfyrwyr wrth ddefnyddio cronfeydd data cyfreithiol er mwyn meithrin eu sgiliau ymchwil ar-lein, digidol a llythrennedd gwybodaeth
- y gallu i ddangos hanes o ddatblygiad personol ac arfer myfyriol ac ymrwymiad parhaus iddynt, ynghyd â'r gallu a'r parodrwydd i fentora/cefnogi myfyrwyr wrth Gynllunio Datblygiad Personol
- tystiolaeth o'r gallu i roi adborth ysgrifenedig priodol ac wedi'i deilwra ar gynnwys a sgiliau er mwyn helpu myfyrwyr unigol i ddatblygu drwy eu rhaglen astudio yn unol â safonau cytunedig y Brifysgol
- y gallu i ddangos sgiliau rheoli llwyth gwaith effeithiol a chwblhau gwaith o fewn terfynau amser y brifysgol
- y gallu i hwyluso dysgu effeithiol drwy dulliau dysgu cyfunol (cydamseredig ac anghydamseredig ar-lein ac wyneb yn wyneb) ymhlith amrywiaeth o fyfyrwyr â galluoedd, dulliau dysgu, nodau astudio a phrofiadau amrywiol
- tystiolaeth o'r gallu i ddefnyddio technoleg ar-lein i roi cymorth effeithiol i fyfyrwyr.

*Manylion sy'n ymwneud â'r modiwl – gallwch gael eglurhad llawn ar y wefan*

Credydau a ddyfernir i'r myfyriwr am gwblhau modiwl yn llwyddiannus:	60
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	4
Dull cyflwyno aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	3
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	10
Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu:	8